

Ysgol ID Hooson Polisi Llywodraethu Gwybodaeth

Beth yw Llywodraethu Gwybodaeth?

Gall Llywodraethu Gwybodaeth olygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Mae'n dderm sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r ffordd rydym yn rheoli ein rhwymedigaethau i'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- GDPR
- Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Rheoliadau Ail-ddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2005
- Rheoli Cofnodion (cop s46 FOIA)

Mae'n caniatáu i'r ysgol a'i weithwyr sicrhau bod gwybodaeth am fusnes a gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin yn gyfreithiol, yn ddiogel, yn effeithlon ac yn effeithiol er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau posib.

Mae'r Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth yn gosod y ffordd mae'r ysgol yn trin gwybodaeth, data personol a sensitif yn ymwneud â'n myfyrwyr, staff a'n cyflenwyr yn benodol.

Llywodraethu Gwybodaeth - nodau

Nodau Llywodraethu Gwybodaeth yw:

- Cydymffurfio â holl ofynion deddfwriaethol perthnasol, gan ddiogelu unigolion a sefydliadau o ganlyniad.
- Rheoli creu, cadw, symudiad a rhannu data mewn modd diogel ac effeithlon
- Cefnogi darpariaeth cyflwyniad gwasanaeth o safon uchel drwy hyrwyddo defnyddio gwybodaeth yn briodol ac effeithiol
- Annog staff a partneriaid i gydweithio, drwy atal dyblygiad gwybodaeth, ymdrech a galluogi defnydd fwy effeithiol adnoddau data wedi'u rhannu
- Datblygu trefniadau cefnogaeth sy'n darparu gwybodaeth i staff a pholisïau a chanllawiau Llywodraethu Gwybodaeth
- Darparu hyfforddiant a chefnogaeth i alluogi staff i ryddhad eu cyfrifoldebau dan ddeddfau amrywiol – i gyd yn gyson i safonau uchel

Mae gan Ysgol I D Hooson set o bolisïau corfforaethol o lefel uchel ar waith sy'n cyfarwyddo pob Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli. Caiff hyn ei gefnogi gan weithdrefnau manwl sy'n nodi'n union sut mae angen i staff weithio i ddilyn ein polisi.

Rheoli Risg Gwybodaeth

Mae risg gwybodaeth yn hanfodol i bob gweithgaredd gweinyddol a busnes ac mae pawb sy'n gweithio i, neu ar ran yr Awdurdod yn parhau i reoli risg gwybodaeth.

Mae rheoli risg gwybodaeth yn elfen hanfodol o lywodraethu gwybodaeth ac mae'n rhan gynhwysol o ymarfer rheoli da. Yr amcan yw mewnosod rheoli risg gwybodaeth mewn ffordd ymarferol iawn i brosesau a swyddogaethau busnes.

Asedau Gwybodaeth

Ased gwybodaeth yw corff o wybodaeth, wedi'i ddiffinio a'i reoli fel uned sengl fel ei fod yn gallu cael ei ddeall, ei rhannu, ei ddiogelu a'i ddefnyddio'n effeithiol. Mae gan Asedau Gwybodaeth gylch bywyd gwybodaeth hawdd eu hadnabod a gwerth sy'n hawdd ei drin. Drwy nodi Asedau Gwybodaeth, mae'n bosib mesur risg, lliniaru a rheoli risgiau ac unigolion sy'n rheoli a thrin yr ased a'r risgiau.

Sut i adnabod Ased Gwybodaeth

- 1) Oes gan y wybodaeth werth i'r sefydliad? H.y.
 - a. Pa mor ddefnyddiol yw'r ased? A fydd yn costio i'w gaffael eto?
 - b. A fyddai sgil-ffeithiau cyfreithiol, ariannol, neu i enw da os na fyddwch yn gallu eu creu ar gais?
 - c. A fyddai'n cael effaith ar effeithlonrwydd gweithredol os na fyddech yn gallu cael mynediad ato?
 - d. A fyddai canlyniadau am beidio ei gael?
- 2) Oes risg ynghlwm â'r wybodaeth? H.y.
 - a. Oes risg o'i cholli?
 - b. Oes risg nad yw'n gywir?
 - c. Oes risg bod rhywun yn debygol o ymyrryd â'r wybodaeth?
 - d. Oes risg yn codi o ddatgeliad amhriodol?
- 3) A oes gan ddsbarth y wybodaeth gynnwys benodol? H.y.
 - a. A ydych chi'n deall beth ydyw?
 - b. Beth mae'n ei wneud?
 - c. Ydyw'n cynnwys cyd-destun y data?
- 4) Oes gan y wybodaeth gylch bywyd hawdd ei drin? h.y.
 - a. A grëwyd y cydrannau i gyd er pwrpas cyffredinol?
 - b. Os gan y wybodaeth yr un dyddiad cadw?
 - c. A ellir ei gwaredu yn yr un ffordd ac yn unol â'r un rheolau?

Mae Asesiad Effaith Preifatrwydd

Yn ffordd o asesu risgiau wrth brosesu gwybodaeth bersonol. Mae'n rhaid eu cynnal ar ddechrau unrhyw brosiect drwy gasglu data digidol personol. Mae hwn yn angen statudol i'w cynnal pan mae data categori arbennig neu mae data o risg uchel. Caiff mwy o wybodaeth ei chynnwys yn y templed a'r weithdrefn Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd (PIA)

Diogelwch Gwybodaeth

Gwybodaeth sy'n cael ei chadw a'i phrosesu gan y cyngor neu drydydd parti sy'n gweithio ar ran yr ysgol. Dylid ei nodi a'i rheoli fel ased gwerthfawr ac mae'n yn ddarostyngedig i'r un prosesau rheoli adnoddau ag unrhyw adnodd UT arall. Pan gaiff data ei greu, ei storio, ei drosglwyddo a'i gyfathrebu, mae'n rhaid ei ddiogelu rhag mynediad heb ei awdurdodi, defnydd, addasiad neu ddinistriad.

Heb lefelau digonol o ddiogelu, cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd gwybodaeth, nid yw'n bosib cydymffurfio gyda rhwymedigaethau, yn cynnwys gofynion cyfreithiol, statudol a chontract. Mae'n rhaid amgryptio neu roi ffug enw pan fo hynny'n bosibl.

Dylai pob mynediad, a defnydd gwybodaeth ddilyn egwyddorion llywodraethu gwybodaeth.

Cyfrinachedd Mae'n rhaid rhoi mesurau priodol ar waith i sicrhau bod y wybodaeth ond ar gael i'r rhai sydd wedi eu hawdurdodi i'w gael mynediad ati.

Uniondeb Mae'n rhaid cynnal cywirdeb a gwybodaeth lawn, ac mae'n rhaid awdurdodi, rheoli a gwirio unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar y wybodaeth honno.

Argaeledd Mae'n rhaid i wybodaeth fod ar gael i unigolion wedi'u hawdurdodi pan fo'r angen. Mewn trychineb neu ddigwyddiad arall, mae'n rhaid i wybodaeth sydd gan yr A.LI. a'r systemau sy'n hanfodol i lwyddiant ein sefydliad allu cael eu hadfer yn unol â'n cynlluniau.

Dilysiad Mae'n rhaid i bob unigolyn a system sy'n ceisio mynediad at wybodaeth neu i'n hadnoddau rhwydwaith cyfrifiadurol sefydlu eu hunaniaeth i foddhad yr Awdurdod Lleol.

Rheoli Cyrchu Mae'n rhaid cyfyngu'r fraint i weld neu newid gwybodaeth, rhaglenni cyfrifiadurol neu'r systemau lle cedwir y wybodaeth i'r rheiny sydd ei angen i'w swyddogaethau swydd yn unig.

Cydymffurfio

Mae'n rhaid cofnodi a chadw mynediad at wybodaeth defnyddwyr, a gweithgareddau ar gyfrifiaduron, waliau tân a rhwydweithiau'r sefydliad yn unol â gofynion rheoliadol, diogelwch, cadwraeth a deddfwriaeth berthnasol.

Cyfrifoldeb pob aelod o staff yw glynu at Bolisiau Diogelwch yr Ysgol.

Pryd gaiff y wybodaeth ei dosbarthu?

Rhannu Gwybodaeth

Mae rhannu gwybodaeth yn hanfodol i nod yr Awdurdod o ddarparu gwasanaethau gwell, mwy effeithlon sy'n cael eu cydlynu o amgylch anghenion yr unigolyn. Mae'n hanfodol galluogi gwaith ymyrraeth gynnar ac atal ar gyfer diogelu ac annog lles ar gyfer gwarchod y cyhoedd ehangach. Mae rhannu gwybodaeth yn elfen hanfodol o wella canlyniadau i bawb.

Cymryd ein cyfrifoldebau dros drin gwybodaeth yn ddifrifol

Mae hyfforddiant wrth galon Llywodraethu Gwybodaeth. Mae hyn er mwyn galluogi staff i ddeall sut mae rheoli gwybodaeth yn effeithio ar eu bywydau gwaith a'u gwneud yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae cyfrifoldeb allweddol yn ymwneud â rheoli gwybodaeth bersonol wedi'i diogelu. Bu nifer o achosion yn y sector cyhoeddus o dorri amodau diogelu data pan gollodd staff gyfrifiaduron, cofion bach, neu anfonwyd negeseuon e-bost neu ffacs â gwybodaeth bersonol i'r unigolion anghywir. Gellir rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith, ond mae hyfforddiant yn helpu staff i ddeall beth maent yn eu gwneud a sut i'w gweithredu.

Swyddi

Corff Llywodraethu

Y Corff Llywodraethu yw'r Rheolydd Data sy'n berchen ar y polisi, sy'n cyflawni rôl monitro ac yn rheoli cwynion ac yn adolygu'r polisi pan fo hynny'n briodol. Bydd y Swyddog Diogelu Data yn darparu cyngor a chymorth ar gyfer y swyddogaethau hyn.

Y Pennaeth (gyda'r Swyddog Diogelu Data)

Maent yn darparu diweddariad blynyddol i'r Corff Llywodraethu

Swyddog Diogelu Data

Darparu trosolwg annibynnol o faterion cydymffurfedd. Darparu cyngor a chymorth pan yn ofynnol a chynghori a rhoi cymorth ar gwynion a gweithrediad yr offer. Monitro Effaith Preifatrwydd a defnydd offer Teledu Cylch Caeëdig.

Holl staff

Mae'n rhaid cwblhau Hyfforddiant Diogelu Gwybodaeth a Diogelu Data bob 12 mis i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda sut maent yn defnyddio ac yn diogelu gwybodaeth yn eu gweithgareddau gyda'u swydd.

Manylion Cyswllt yr Ysgol Rhodri Jones Pennaeth	Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth Wycliffe House Water Lane Wilmslow Swydd Gaer SK9 5AF
	www.ico.gov.uk
Ysgol (Swyddog Diogelu Data) David Bridge GDBR Consultancy Cyf	Cyswllt y Corff Llywodraethu Mrs Stella Matthews
david@gdbr.co.uk www.gdbr.co.uk	